# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ddydd Llun, 7 Mawrth 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd), Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd), Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Gary Pritchard, Alun Roberts

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol)

**Wrth law:** Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro Dros Dro, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Pennaeth Gwasanaethau Tai, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME), Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi), Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Richard Owain Jones a J. Arwel Roberts;
Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dafydd Roberts, Mr Arwel Jones (Prif Swyddog Datblygu – Cefnogi Pobl)

1:00 yp tan 2:00 yp

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| DECISION | Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Monitro Perfformiad: Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3 2021/22** |
|---|---|
| DECISION | Ar ôl ystyried adroddiad y cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 3 2021/22 ac eglurhad a gyflwynwyd gan Swyddogion yn ystod y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru a nodwyd i'r Pwyllgor Gwaith. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2022/23** |
|---|---|
| DECISION | Ar ôl ystyried y dogfennau ac eglurhad a roddwyd yn ystod y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor argymell Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022-52 i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26** |
|---|---|
| DECISION | Ar ôl ystyried y dogfennau a'r wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar yn ystod y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith –<br><br>• Ei fod yn cymeradwyo'r Strategaeth Grant Cymorth Tai 2022-26 a'r Cynllun Cyflawni.<br>• Y dylai gytuno i'r Cynllun Gwariant arfaethedig yn unol â Chanllawiau a gofyniad GCT Llywodraeth Cymru a gynhwysir yn Atodiad B yn y Cynllun Cyflawni.<br>• Ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun Gwaith Pontio Ailgartrefu Cyflym Ebrill 2022 – Mawrth 2027 i'r Pwyllgor Gwaith. |